**Adnodd Gofal Anifeiliaid**

**Nodiadau ar gyfer defnyddio'r adnodd hwn**

Gwybodaeth sydd eu hangen er mwyn gofalu'n briodol am amrywiaeth eang o anifeiliaid.

Bydd pob uned yn canolbwyntio ar grwpiau gwahanol o anifeiliaid, ac yn pwysleisio anghenion rhywogaethau o fewn amrediad o gategorïau. Fel cyfanwaith, mae'r cwrs byr hwn yn cyflwyno agweddau allweddol ar sut i ofalu am anifail, ac yn dangos sut i ddefnyddio'r sgiliau a gwybodaeth angenrheidiol er mwyn cynnal iechyd a lles yr anifail.

Gellir cael mynediad rhwydd i'r wybodaeth hon, gan y cyflwynir hi mewn arddangosiadau fideo byr sy'n cydymffurfio ag arferion safonol o fewn diwydiant gofal anifail.

Medrwch reoli eich dysgu trwy gwblhau'r tasgau sy'n berthnasol i bob clip fideo. Mae'r rhain yn cynnwys testunau a chwestiynau i ymchwilio a thrafod, neu feddwl amdanynt. Mae'r taflenni gwaith yn eich helpu i grynhoi beth rydych wedi'i ddysgu, ac mae tasgau rhyngweithiol yn eich helpu i brofi eich gwybodaeth.

Os ydych am sicrhau eich bod wedi cyflawni'r holl destunau , defnyddiwch 'nodiadau'r athro' neu 'nodiadau'r myfyriwr'. Bydd eu dilyn yn eich arwain drwy'r holl wersi yn y gyfres. Fel arall, dewiswch yr adrannau neu'r cymwysiadau rydych am ddysgu mwy amdanynt.

**Nodiadau'r athro**

Ynghyd â rhesymwaith yr uned hon, sy'n cynnwys nodau ac amcanion, ceir hefyd awgrym ar gyfer cynllun gwaith.

Mae'r Cynllun Gwaith yn cynnwys cwestiynau mynegol a fydd yn cael eu hateb yn ystod pob arddangosiad fideo. Efallai y gellir defnyddio'r rhain fel paratoad cyn gwylio'r clip neu i asesu dealltwriaeth a dysg, yn ystod neu ar ôl y gwylio.

Mae'r Cynllun Gwaith yn cynnwys tasgau awgrymedig, a ellir eu defnyddio i ddatblygu'r testunau ymhellach. Mewn sawl achos, gallai'r rhain fod yn addas iawn i'w defnyddio fel tasg yn cael ei arwain gan diwtor neu fyfyriwr, ymchwil, trafodaeth ystafell ddosbarth, neu fel rhan o asesiad. Mae'r adnodd hwn yn cynnwys nifer o dasgau rhyngweithiol integredig hefyd, a allai gael eu harwain gan fyfyriwr neu diwtor.

TELESGOP

NGfL CYMRU GCaD

Cynlluniwyd y tasgau a'r cwestiynau er mwyn rhoi'r cyfle ar gyfer gwneud gwaith gwahaniaethol, a dysgu ac asesu gyda chyfoedion.

**Nodiadau'r myfyriwr**

Mae'r nodiadau hyn yn eich helpu i ymdrin â phopeth.

Darllenwch y nodiadau a dilynwch y cyfarwyddiadau a roddir am bob clip fideo i'w wylio.

Bydd y nodiadau hefyd yn rhoi cwestiynau i chi i feddwl amdanynt wrth i chi wylio bob clip, ac yn rhoi cwestiynau neu dasgau i'w cwblhau ar ôl bob clip hefyd.

Bydd dilyn y dull hwn yn sicrhau eich bod yn deall pob pwnc cyn symud ymlaen, ac nad ydych yn methu unrhyw beth.

**Gofalu am famolion bach**

Mae pedwar math o rywogaethau yn cael eu defnyddio fel enghreifftiau yn yr adran hon: bochdew, jerbil, llygoden a llygoden fawr. Dangosir pob rhywogaeth a thestun ar wahân, felly os oes gennych ddiddordeb mewn un anifail arbennig, medrwch fynd yn syth i'r adran gywir.

**Gofalu am anifeiliaid anwes**

Mae tri math o rywogaethau yn cael eu defnyddio fel enghreifftiau yn yr adran hon : Cwningen, Mochyn Cwta a Ffured. Dangosir pob rhywogaeth a thestun ar wahân, felly os oes gennych ddiddordeb mewn un anifail arbennig, medrwch fynd yn syth i'r adran gywir.

TELESGOP

NGfL CYMRU GCaD